



Rhaglen Gyflawn



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Gwasanaeth Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD GWENER, 17EG TACHWEDD, 2017

*** BYDD CYFARFOD O'R PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YN
DILYN Y PWYLLGOR**

Lleoliad

**YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN,
LLANGFNI**

Pwynt Cyswllt

Nia Haf Davies

01286 679890

niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 9 Tachwedd 2017)

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

AELODAETH

Gwynedd

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes

Berwyn Parry Jones, Dafydd Meurig, John Pughe Roberts,

Catrin Wager, Owain Williams

Ynys Môn

Y Cynghorwyr

Richard Dew, John Griffith,

Kenneth P Hughes, Richard O. Jones, Bryan Owen,

Nicola Roberts, Robin Williams

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2017, fel rhai cywir,

7. SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD 7 - 8

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio

8. AIL SEFYDLU PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD 9 - 11

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio

Eitem 6



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

2:00 yp, 14 Gorffennaf 2017

Glyder Fawr, Caernarfon

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Bryan Owen
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. Robin Williams
Cyng. Nicola Roberts

Cyngor Gwynedd

Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Owain Williams
Cyng. Catrin Wager
Cyng. John Brynmor Hughes

Swyddogion:

| | |
|----------------|--|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| Heledd Jones | Arweinydd Tîm - UPCC |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Wyn Hughes (CG)
Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Berwyn Parry Jones (CG)
Cyng. Richard O Jones (CSYM)

- 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
Ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.
- 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.
- 3. MATERION BRYS**
Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 fel y rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR AROLYGYDD A DOGFENNAU PERTHYNOL

Cafwyd cyflwyniad bras gan Rhun ap Iareth yn amlinellu'r canlynol:

- Rôl y Pwyllgor mewn derbyn Adroddiad yr Arolygydd
- Gofynion y broses statudol o ran y broses o baratoi CDLI ar y Cyd
- Ystyried addasrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn

Cafwyd eglurhad gan Nia Davies ar gamau'r broses o ddarparu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar Adroddiad yr Arolygydd.

Cefndir (1 – 6)

- Angenrheidrwydd o gael Cynllun yn ei le.
- Esbonio'r broses a ddechreuwyd yn 2011 a'r camau proses statudol cymhleth i gyrraedd y pwynt yma, sef derbyn Adroddiad yr Arolygydd.
- Proses cynhwysol - ymgynghori cyhoeddus a chyfnodau cyfranogiad wedi bod drwy gydol y broses.

Proses Yr Archwiliad (7- 12)

- Gwrandawiaidau i wahanol themâu
- Dilyn ' Pwyntiau Gweithredu' a newidiadau
- Cyflwyno cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi
- Gwrandawiaidau ychwanegol yn cael eu cynnal fel canlyniad i'r uchod

Adroddiad yr Arolygydd (13 – 21)

- Adroddiad yr Arolygydd wedi cael ei dderbyn ar 30 Mehefin, 2017.
- Neges yr Adroddiad fod y Cynllun yn gadarn ac yn ymateb i'r profion cadernid, ynghyd ac argymhellion o newidiadau mân (Atodiad A & B).
- Rhaid i'r Cyngorau dderbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan ei fod yn adroddiad rhwymol. Nid oes posibil dewis a dethol rhannau o'r adroddiad yn unig.

Gofynion Statudol (22 – 23)

- Gofyniad statudol Cyngorau dderbyn/dim derbyn y Cynllun o fewn cyfnod 8 wythnos o fod wedi derbyn Adroddiad yr Arolygydd. Cynhelir y Pwyllgorau yma yng Ngwynedd ar y 28 Gorffennaf 2017 ac ym Môn ar y 31 Gorffennaf 2017.

Risgiau a Heriau o beidio cael Cynllun (24 - 32)

- Fel mae'n sefyll ar hyn o bryd nid oes unrhyw Gynllun yn ei le gan y ddau awdurdod.
- Gofyniad i gael cynllun i reoli datblygiadau. Nid oes cyflenwad tir ar gyfer tai gan y ddau awdurdod ar hyn o bryd, felly mae hyn yn codi heriau o apeliadau ar geisiadau cynllunio sydd yn arwain i gostau yn erbyn yr awdurdodau.
- Nodyn i atgoffa fod pwerau dewisol gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r cynllun.
- Os penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun, mae'r rheolaeth yn hawlio i fudiad/unigolyn (ayyb) i gyflwyno her i'r Llys Uchel am gyfnod hyd at chwe wythnos o'r dyddiad o benderfynu mabwysiadu'r Cynllun.

Gofynion Ychwanegol (33 – 34)

- Nodwyd y bydd rhaid i'r Cyngorau gyhoeddi datganiad mabwysiadu ac Aseiad Cynladwyedd.

Camau i'w cymryd os fydd y Cyngorau unigol yn penderfynu mabwysiadu'r Cynllun (35-39)

- Casglu gwybodaeth ac adrodd ar y Fframwaith Fonitro (pennod 7) yn flynyddol ynghyd a pharatoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (rhestr Atodiad 9 o'r Cynllun).
- Cynnal Adolygiad o'r Cynllun pedair blynedd ar ôl y dyddiad mabwysiadu.

Pwyntiau a Godwyd:

- i. Diolchwyd am y gwaith oedd wedi cael ei gynnal hyd yma fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun, fodd bynnag nodwyd pryder ynglŷn â'r orddarpariaeth o dai (8,000 o dai a fyddai'n cyfateb i gynnydd o 20,000 yn y boblogaeth). Nodwyd y rhwystredigaeth yn y ffaith fod y ffigwr hwn yn cael ei orfodi ar y Cynghorau. Er bod yna gost ariannol yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun, mynegwyd y byddai'r gost ieithyddol o'i fabwysiadu yn ddirfawr.
- ii. Cefnogwyd y pryderon fel nodwyd yn (i) uchod. Ymhellach esboniwyd mae Cynllun Lleol a oedd yn cyrraedd gofynion y boblogaeth leol oedd angen ei baratoi, nid Cynllun a oedd wedi ei lywio gan arweiniad canolog Llywodraeth Cymru.
- iii. Amlygwyd y ffaith mae rôl y Pwyllgor ydi derbyn fod y broses yn gywir a chytuno iddo gael ei gyflwyno i'r Cynghorau Llawn i'w fabwysiadu.

Penderfyniad:

Yn unol â'r argymhellion, penderfynwyd:-

- i. Bod y Pwyllgor yn derbyn Adroddiad yr Arolygydd yn ffurfiol ac yn nodi ei gynnwys
- ii. Bod y Pwyllgor yn cytuno bod y broses i fyny at y cam mabwysiadu wedi ei gwblhau.
- iii. Bod y Pwyllgor yn nodi materion a'r opsiynau a'r dogfennau perthynol angenrheidiol

Eitem 7

| | |
|---------------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| DYDDIAD | 17 Tachwedd 2017 |
| ENW | Swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| PWRPAS | Rhoi gwybodaeth am swyddogaethau'r Pwyllgor ac ystyriaethau perthnasol eraill. |
| ARGYMHELLIAD | Nodi cynnwys yr adroddiad |
| AWDUR | Rheolwr Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn |

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn wreiddiol drwy gytundeb yn 2011. Bu'n gweithredu fel corff trawsffiniol i wneud penderfyniadau ar ran y ddau Gyngor ar adegau allweddol yn y broses, neu i gynghori'r ddau Gyngor. Daeth y gytundeb yn gysylltiedig â'r Pwyllgor i ben pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 31 Gorffennaf 2017.
2. Ar 7 ac 20 Mawrth 2017 fe wnaeth Cabinet Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo cynnig i barhau i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer y ddau Awdurdod am bum mlynedd bellach. Yn sgil hynny, cytunodd y ddau Gyngor bod sail gadarn i barhau i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Cafodd cytundeb newydd ei chytuno a bydd y ddau Gyngor yn cefnogi'r Pwyllgor am bum mlynedd arall.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL AM Y GYTUNDEB

Swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

3. Mae gofyn i swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ymwneud â gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd dros y pum mlynedd nesaf a'r ffaith bod gennym gynllun datblygu wedi'i fabwysiadu erbyn hyn.
4. Mae'r cytundeb newydd yn debyg iawn i'r cytundeb blaenorol yn 2011, a oedd yn cynnwys cyfrifoldeb i fonitro ac adolygu'r Cynllun. Mae swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi'u cynnwys isod, gyda'r swyddogaethau newydd wedi'u tanlinellu:
 - i. Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor.
 - ii. Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n gyffredin i'r ddau Gyngor.
 - iii. Bod yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
 - iv. Cyflwyno'r adroddiad adolygu a'r cytundeb cyflawni diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r ddau Gyngor gytuno arnynt.

- v. Bod yn gyfrifol am ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd diwygiedig i'r ddau Gyngor i'w mabwysiadu.
 - vi. Derbyn a chyngori ar restr ffi ardoll ddrafft ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus ac ar argymhellion yr Arolygwr cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet / Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.
 - vii. Derbyn a chytuno ar adroddiad blynyddol ynghylch y drefn cyd-lywodraethu ac ariannu.
 - viii. Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.
5. O safbwynt Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn effeithio ar ardal weinyddu un Awdurdod yn unig, bydd y rhain yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er gwybodaeth yn unig. Mewn amgylchiadau fel hyn bydd yna ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Awdurdod arall. Bydd yna eglurhad o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol yn amlinellu pam ei fod yn berthnasol i ardal weinyddu un Awdurdod yn unig.
 6. Mae'n bwysig nodi y bydd materion mabwysiadu unrhyw Ddiwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael eu cadw i'r naill Gyngor a'r llall yn unigol. Ymhellach, bydd materion yn ymwneud â Chraffu yn cael eu cadw gan y naill Awdurdod a'r llall.

Aelodaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

7. Yr unig newid yn nhermau aelodaeth ydi tynnu'r hawl i benodi Aelodau fel aelodau wrth gefn. Mae hyn yn gyson â'r newidiadau deddfwriaethol diweddar a gyflwynwyd yng nghyswllt aelodaeth Pwyllgorau Cynllunio, ble mae aelodau wrth gefn bellach wedi'u gwahardd drwy statud.

Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

8. Bydd Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd. Bydd saith aelod o bob Awdurdod ar y Pwyllgor gyda chworwm o bedwar aelod. Bydd Cadeiryddiaeth y Pwyllgor yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng y naill Awdurdod a'r llall. Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn cadeirio'r Pwyllgor am y ddwy flynedd gyntaf. Bydd yr un peth yn wir ar gyfer is-gadeiryddion, gyda Gwynedd yn cymryd y rôl hon am y ddwy flynedd gyntaf.
9. Aelodau sydd wedi'u penodi ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unig all bleidleisio a bydd lleoliad y cyfarfodydd yn cylchdroi rhwng Caernarfon a Llangefni, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwarter fel arfer.

Argymhelliad

10. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

Eitem 8

| | |
|---------------------|--|
| CYFARFOD | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| DYDDIAD | 17 Tachwedd 2017 |
| ENW | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| PWRPAS | Ail-sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| ARGYMHELLIAD | Bod y Pwyllgor yn ail-sefydlu'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'i fod yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl a welir yn Atodiad 1 |
| AWDUR | Rheolwr Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn |

Cefndir

1. Cafodd Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ei sefydlu yn y lle cyntaf ym mis Mawrth 2011. Penderfynwyd bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn aelodau o'r Panel hwnnw. Ers iddo gael ei greu mae'r Panel wedi ystyried a chynnig sylwadau am ystod eang o ddogfennau a oedd yn allweddol i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Dyma enghreifftiau o'r meysydd:
 - i. Datblygu papur trafod i'w ddefnyddio i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid penodol a chyffredinol ynglŷn â chyfeiriad posib yr hoff strategaeth;
 - ii. Roi mewnbwn i fethodoleg i asesu safleoedd fydd ar y Gofrestr Tir Posib;
 - iii. Ystyried sail dystiolaeth ar gyfer ymgymryd ag Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a rhoi mewnbwn i'r fframwaith asesu;
 - iv. Ystyried casgliadau dechreuol nifer o astudiaethau, e.e. Astudiaeth Tir Cyflogaeth;
 - v. Polisiâu drafft a mapiau cynigion drafft y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd;
 - vi. Ystyried adroddiadau am sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid amrywiol yn ystod cyfnodau ymgynghori cyhoeddus
2. Mae Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn rhan C1 (viii) yn rhoi'r hawl i'r Pwyllgor i:

“Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.”

Swyddogaethau'r Panel

3. Mae swyddogaethau arfaethedig y Panel wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 1 i'r papur yma. Gwelir mai prif bwrpas y Panel ydi ystyried a rhoi barn ar wybodaeth sy'n angenrheidiol i lywio datblygiad dogfennau polisi cynllunio allweddol sydd wedi cael eu hadnabod yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Rôl y Pwyllgor wedyn fydd un ai gwneud penderfyniad ar ddogfennau allweddol, neu roi arweiniad i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith neu'r Cynghorau.

Argymhelliad

4. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo ail-sefydlu'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'i fod yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl a welir yn Atodiad 1

Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Cylch Gorchwyl

Prif Bwrpas

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar y Cyd yn ystyried a rhoi barn ar wybodaeth sy'n angenrheidiol i lywio datblygiad dogfennau polisi cynllunio allweddol a fydd angen i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio un ai wneud penderfyniad amdanynt neu roi cyngor i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor. Bydd y dogfennau yn cynnwys rhai sy'n rhoi casgliadau am gyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus (gweler swyddogaethau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd).

Amcanion

Bydd Panel y Cynllun Datblygu Lleol yn:

- i. Ystyried dogfennau drafft am gasgliadau gwaith sy'n angenrheidiol i fonitro'r Cynllun er mwyn llywio penderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am gynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ac Adroddiad Adolygu'r Cynllun.
- ii. Ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol drafft sy'n gyffredin i'r ddau Gyngor, er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys ynddynt, cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt.
- iii. Ystyried adroddiadau am astudiaethau, papurau testun a dogfennau drafft y Cynllun yn ystod y broses o'i ddiwygio, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i wneud penderfyniadau am gynnwys y Cynllun diwygiedig.
- iv. Ystyried dogfennau drafft yn gysylltiedig ag ymchwilio i greu rhestr ffi ardoll er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i gyflwyno argymhelliad i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith.
- v. Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/ fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

Mandad

- Bod yn grŵp mewnol o Aelodau Etholedig.
- Bod yn weithgor gweithredol, gyda swyddogaeth o hwyluso'r gwaith o greu consensws ar faterion allweddol.

Cyfansoddiad

Bydd y Panel yn cynnwys pob un o Aelodau Etholedig o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (7 o Fôn a 7 o Wynedd).

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Caiff y Panel ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd.

Cworwm

Cydnabyddir na fydd pob Aelod sydd wedi'u hadnabod ar gael i fynychu pob cyfarfod a gynhelir yn ystod y broses. Fodd bynnag, er mwyn i gyfarfod o Banel y CDLI ar y Cyd gael ei gynnal, fe ddylid cael cworwm o bedwar Aelod Etholedig.

Amledd

Bydd Panel y CDLI ar y Cyd yn cyfarfod yn ôl yr angen, e.e. er mwyn rhoi cyngor yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol, yr Adroddiad Monitro Blynyddol, ddiwygiad o'r Cynllun, neu'r ffi ardoll. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y grŵp, bydd dyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu sefydlu gan roi cymaint o rybudd â phosib.

Rhaglenni

Rheolwr Polisi (Cynllunio) o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a fydd yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr Cynllunio Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Cyngor Gwynedd) a Phrif Swyddog Cynllunio (Cyngor Sir Ynys Môn).

Bydd Aelodau'r Panel yn derbyn yr holl bapurau pum niwrnod cyn cyfarfodydd.

Mecanwaith Adrodd

Bydd cofnodion y Panel CDLI yn cael eu paratoi a'u cyflwyno ar raglen y cyfarfod dilyniannol.